

Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

Atodiad D – Rhestr Termau

CYNGOR CAERDYDD - 2024



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Cymreig/
This document is available in Welsh



**STRONGER
FAIRER
GREENER**



Atodiad D

Rhestr Termiau

AAS

Achos Busnes Amlinellol (AAS) Strategol. Y cam 1af wrth ddylunio cynllun lliniaru llifogydd sy'n ymchwilio i'r angen strategol am gynllun lleddfu llifogydd.

ABA

Yr ail gam wrth ddatblygu cynllun lliniaru llifogydd sy'n pennu opsiwn a ffeirir i'w ddatblygu ymhellach o fewn cam yr ABLI.

ACLI

Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Adroddiad sy'n ymchwilio ac yn disgrifio'r risg o lifogydd i ddatblygiad arfaethedig ac oddi wrtho. Fe'i defnyddir i ddangos mesurau lliniaru i leihau risgiau ac effeithiau, gan sicrhau diogelwch a chyn lleied o effaith ar risg llifogydd.

ACLI

Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi'i rymuso gan y gyfraith i arfer y swyddogaethau cynllunio a'r dyletswyddau statudol gyda Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

ACLIS

Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol. Asesiad sy'n darparu tystiolaeth i lywio polisïau a phrosesau dethol safleoedd ar gyfer pob cynllun datblygu strategol a lleol. Dylai'r ACLIS lywio datblygiad wrth hefyd nodi ffyrdd o wella risg llifogydd i gymunedau lleol.

ALILIA

Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol fel y'i diffinnir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

APLIC

Asesu Perygl Llifogydd Cymru. Asesiad cenedlaethol o risg llifogydd o bob ffynhonnell o lifogydd.

(ASC) Ardoll Seilwaith Cymunedol

Mae'r ardoll seilwaith cymunedol yn system codi tâl newydd sy'n caniatáu awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru (a Lloegr) i godi arian gan ddatblygwyr sy'n mynd i'r afael â phrojectau adeiladu newydd yn eu hardal.

Awdurdod Priffyrdd

Yr awdurdod sy'n gyfrifol am reoli a chynnal y rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig yn eu hardal.

ARhR

Awdurdod Rheoli risg. Diffinnir yn adran 6 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel CNC (Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr), awdurdod llifogydd lleol arweiniol, cwmni dŵr, awdurdod priffyrdd neu fwrdd draenio mewnol lle y bo hynny'n berthnasol.

BJC

Achos Cyfiawnhad Busnes. Achos busnes un cam sydd wedi'i anelu at gynlluniau lliniaru llifogydd bach, syml ac annadleuol.

Camgysylltiadau

Cysylltiad heb ganiatâd o ddraeniad budr / cyfun â charthffos anghywir fel dŵr wyneb neu garthffos briffordd. Yn aml, gall camgysylltiadau arwain at ddigwyddiadau llygredd ar raddfa fach a mawr.

CBLI

Cynllun Busnes Llawn. 3ydd cam datblygu'r cynllun lliniaru llifogydd sy'n cynnwys y dyluniad manwl terfynol.

CCDC

Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy. Swyddogaeth statudol yr ALILIA o dan Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'n sicrhau bod pob datblygiad dros 100m2 wedi'i gynllunio, ei adeiladu a'i gynnal yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Draenio Cynaliadwy a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

CCmP

Cofrestr Cymunedau mewn Perygl. Cofrestr a ddatblygwyd gan CNC, ar ran Llywodraeth Cymru, i ddarparu dull gwrthrychol o nodi risg a blaenoriaethu gweithgareddau rheoli risg llifogydd ar lefel gymunedol ledled Cymru.

CDC – Cyngor Caerdydd

Yr awdurdod lleol

CDLI

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Caerdydd i arwain a rheoli datblygiad.

CIRIA

Sefydliad nid-er-elw sy'n hwyluso awdurdodau cydweithredol i wella'r diwydiant adeiladu.

CLILI

Cynlluniau Lliniaru Llifogydd. Cynlluniau a phrosiectau sydd wedi'u cynllunio i leihau'r risg o lifogydd i seilwaith preswyl, masnachol ac allweddol.

CNC

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru a ffurfiwyd ym mis Ebrill 2013. Ffurfiwyd o gyfuno nifer o gyrff cyhoeddus fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

CRhT2

Cynllun Rheoli Traethlin 2. Mae cynllun rheoli traethlin Cyngor Caerdydd o fewn Grŵp Aber Afon Hafren sy'n ymestyn o Anchor Head i Drwyn Larnog. Mae grŵp Aber Afon Hafren yn cael ei gadeirio a'i gynnal gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cwlfert

Adeiledd sy'n caniatáu i ddŵr basio o dan ffyrdd, rheilffyrdd a nodweddion arwyneb eraill. Gellir adeiladu cwlfert o bibellau neu adeileddau blychau wedi'u gwneud o ddeunydd fel concrit.

Cwrs Dŵr Cyffredin

Pob cwrs dŵr nad ydynt wedi'u dynodi'n Brif Afon. Cyfrifoldeb yr ALILIA a'r byrddau draenio mewnol (os yw'n berthnasol) yw lliniaru risg llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin.

Cynnal y Llinell

Dull rheoli traethlin sy'n anelu at gynnal neu uwchraddio amddiffyniad rhag llifogydd neu erydu trwy gadw'r draethlin yn yr un man. Mae cynllun rheoli traethlin Cyngor Caerdydd yn defnyddio dull cynnal y llinell.

C2C

Cysylltu â Chaerdydd yw adran gwasanaeth cwsmeriaid Cyngor Caerdydd lle gellir adrodd am lifogydd.

DCWW

Dŵr Cymru, Welsh Water. Cwmni dŵr nid-er-elw sy'n gwasanaethu dros 3 miliwn o gwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr sy'n darparu gwasanaethau dŵr glân a dŵr gwastraff.

DRhLID 2010

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Deddf gan Senedd y DU sy'n ymwneud â rheoli'r risg sy'n ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol.

Dŵr daear

Dŵr sy'n bresennol o dan wyneb y ddaear yn y mannau mandyllog mewn creigiau a phridd.

Dŵr wyneb

Dŵr wedi'i leoli uwchben y ddaear a all fod yn bresennol ar ffurf haenen o ddŵr ffo ar arwynebau anhwyraidd neu mewn cyrff o ddyfroedd fel llynnoedd a chysiau dŵr cyffredin.

GEGLI

Gallu Eiddo i Wrthsefyll Llifogydd a elwir hefyd yn diogelu lefel eiddo. Cyfres o addasiadau ac amddiffynfeydd wedi'u hychwanegu at adeilad i leihau ei risg o lifogydd.

Golau dydd

Y weithred o ddychwelyd cwlferi cwrs dŵr i sianel / llif agored.

GCC

Gorlif carthffosiaeth gyfun. Pwyntiau cyswllt o'r system garthffosiaeth gyfun gyhoeddus i ddŵr wyneb neu garthffosydd draenio priffyrdd, cyrsiau dŵr cyffredin neu'r môr. Mae GCCau wedi'u cynllunio i actifadu ar adegau o lif uwch.

Morglawdd Bae Caerdydd

Mae morglawdd Bae Caerdydd yn 1.1km o hyd ac yn ymestyn o ddociau Caerdydd yn y gogledd i Benarth yn y de. Roedd adeiladu'r morglawdd yn cynnwys cloeon, pontydd, llifddorau, llwybr pysgod a thros 13km o lan y dŵr.

NCT 15

Nodyn cyngor technegol 15 gan Lywodraeth Cymru sy'n llywio cynlluniau datblygu lleol a phenderfyniadau ar geisiadau cynllunio mewn ardaloedd sydd mewn risg o lifogydd ac erydu arfordirol.

Parth dirlawn

Yr ardal o dan y ddaear lle mae'r holl fandyllau yn cael eu llenwi â dŵr.

Perchnogaeth Glan Afon

Buddiannau a gofynion cyfreithiol perchennog tir y mae cwrs dŵr yn llifo ohono.

Prif Afon

Cwrs dŵr sydd wedi'i ddynodi'n brif afon ar fap prif afonydd CNC. CNC sy'n gyfrifol am liniaru'r risg o lifogydd o'r prif afonydd. Diffinnir ystyr prif afon yn adran 113 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.

Priffordd Fabwysiedig

Ffordd sy'n eiddo i'r cyhoedd ac sy'n cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol.

RhLIN

Rheoli Llifogydd yn Naturiol. Dull o reoli risg llifogydd sy'n defnyddio nodweddion naturiol yn yr amgylchedd. Gellir defnyddio'r dull hwn mewn amgylchedd gwledig a threfol.

RhRLIEA

Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

SDCau

Systemau draenio cynaliadwy. Dull o reoli dŵr wyneb gan ddefnyddio'r amgylchedd naturiol a'i brosesau.

SWTRA

Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru. Awdurdod sy'n gyfrifol am reoli, cynnal a gwella'r rhwydwaith ffyrdd strategol ar ran Llywodraeth Cymru.

Tomenni Rwbel Segur

Ardaloedd mawr o ddeunydd gwastraff a gynhyrchir drwy'r weithred o gloddio.